CONSTRUCTING EXCELLENCE
in the built environment

BERR | Department for Business Enterprise & Regulatory Reform

Sicrhau gwell Perfformiad Busnes drwy gyfrwng Parch tuag at Bobl

Modd ichi gael gwerth o'ch tîm adeiladu

Beth yw Parch tuag at Bobl?

- Mae Parch tuag at Bobl yn dal yn ffrwd allweddol yn yr agenda ar gyfer gwella'r diwydiant, fel y cafodd ei nodi am y tro cyntaf yn Rethinking Construction (1998). Ers hynny, mae'r Fforwm Strategol ar gyfer Adeiladu wedi cynhyrchu set o egwyddorion Ymrwymiad i Bobl fel rhan o'i Ymrwymiadau Adeiladu ehangach.
- Mae Parch tuag at Bobl ac egwyddorion yr Ymrwymiad yn rhannu'r un nodau: annog busnesau i werthfawrogi'r rhai sy'n gweithio ar eu projectau, a'r gymuned o'u cwmpas. Y bwriad yw iddyn nhw gael eu hadlewyrchu yn eich ffordd o fynd ati ym mhopeth o iechyd a diogelwch, i amodau'r safle a lles, cynnig cyfleoedd i hyfforddi, y cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd a hybu boddhad yn y swydd.

Beth mae Parch tuag at Bobl/Ymrwymiad i Bobl yn ei ddweud am eich cwmni chi

Bod gennych chi ots:

- am eich enw da
- am farn eich cwsmeriaid am eich cynhyrchion a'ch gwasanaethau
- am farn eich pobl am eich cwmni fel lle i weithio
- am ddyfodol eich busnes

Pam mae mabwysiadu Parch tuag at Bobl ac egwyddorion yr Ymrwymiad yn gall o safbwynt busnes

- Mae gweithwyr sy'n teimlo eu bod yn cael eu parchu a'u trin yn dda yn debycach o ddymuno aros.
- Mae dod o hyd i bobl newydd dda yn costio amser, ymdrech ac arian.
- Mae gweithwyr uchel eu cymhelliant, sydd wedi'u hyfforddi'n dda, yn debycach o berfformio'n dda.
- Bydd cwblhau projectau yn unol â'r cynllun yn arwain at daliadau cynharach.

Os ydych yn credu y gall Ymrwymiad i Bobl ychwanegu gwerth i'ch busnes chi, beth nesaf?...

Mae toreth o ganllawiau ar gael i'ch helpu i feincnodi'ch perfformiad cyfredol ynglŷn â Pharch tuag at Bob/Ymrwymiad i Bobl, ac i gynnig syniadau ar sut i wella'ch perfformiad. Dyma ddetholiad o ffynonellau cymorth a chyngor.

- ***Canllawiau i fusnesau bach*** – www.businesslink.gov.uk (edrychwch ar fap y wefan i gael y dolenni cyswllt)
- ***Cyngor ar Becyn Offer Parch tuag at Bobl, Dangosyddion Perfformiad Allweddol ac astudiaethau penodol*** – www.constructingexcellence.org.uk/zones/peoplezone/
- ***Ymrwymiadau Adeiladu*** – www.strategicforum.org.uk
- ***Iechyd a Diogelwch*** – Cod Ymarfer Parch tuag at Bobl ynghylch Arferion Gorau Iechyd a Diogelwch – Fforwm Strategol
  Iechyd galwedigaethol – www.constructingbetterhealth.co.uk
- ***Hyfforddi, dysgu a datblygu*** – www.cskills.org; www.summitskills.org.uk
- ***Amodau a chyfleusterau safleoedd*** – www.considerateconstructorsscheme.org.uk
- ***Cysylltiadau â gweithwyr*** – www.berr.gov.uk/employment/index.html
- ***Amrywiaeth*** – www.acas.org.uk; Constructing Excellence; Business Link
- ***Y manteision ar gyfer busnes*** – www.constructingexcellence.org.uk/pdf/document/ce_respect_for_people_report.pdf

Cyfleu'ch Ymrwymiad i Bobl.

Fe allech chi –

- ddefnyddio Anerchiadau Cyflwyno ac Anerchiadau'r Pecyn Offer i atgyfnerthu'ch Ymrwymiad
- defnyddio cylchlythyrau'r cwmni i dynnu sylw at weithgareddau penodol sydd ar waith gennych
- gweithio gyda Constructing Excellence i feincnodi'ch polisïau a'ch arferion mewnol a'u gwella

URN 08/1288W